# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p5)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 12 – Y Pwyllgor Archwilio

#### 1. Cefndir

1.1 Mae Rheol Sefydlog 12 yn rheoleiddio aelodaeth y Pwyllgor Archwilio ac yn amlinellu ei gyfrifoldebau, y ffordd y mae'n gweithio a'r ffordd y caiff tystion eu gwysio a dogfennau eu dangos.

#### 2. Y Rheol Sefydlog Newydd

2.1 Yn yr Atodiad, amlinellir rhai o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheol Sefydlog bresennol i ateb gofynion y Mesur a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael. Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

3.1 Er mai'r Cynulliad fydd yn penderfynu'n gyffredinol pa bwyllgorau i'w sefydlu, mae cymal 30 yn peri iddi fod yn ofynnol i'r Cynulliad sefydlu Pwyllgor Archwilio i ymgymryd â rhai o'r swyddogaethau statudol o dan y Deddf.

3.2 Mae cymal 30 yn amlinellu'r darpariaethau a ganlyn:

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys nifer yr Aelodau a bennir yn y Rheolau Sefydlog.

Ni chaiff yr un o'r bobl a ganlyn fod yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio:

Prif Weinidog Cymru neu unrhyw berson a benodwyd i arfer swyddogaethau Prif Weinidog Cymru;

unrhyw un o Weinidogion Cymru;

y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw berson a benodwyd i arfer swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol;

unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru.

Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan Aelod Cynulliad o grwp gwleidyddol nad oes ganddo rôl

weithredol.

3.3 Sylwer y bydd fformiwla D’hondt yng nghymal 29 yn gymwys i'r Pwyllgor Archwilio oni chaiff ei datgymhwyso drwy benderfyniad a gefnogir gan o leiaf ddau draean o'r Aelodau sy'n pleidleisio.

## 4. Swyddogaethau'r Pwyllgor

4.1 Rhoddir rhai swyddogaethau penodol i'r Pwyllgor yn atodlen 8 sy'n ymwneud ag amcangyfrifon (cyllideb) yr Archwilydd Cyffredinol ac mae cymal 142 yn cynnwys darpariaeth i adrodd i'r Cynulliad ar gyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r cymal hwn hefyd yn darparu i'r Pwyllgor Archwilio glywed tystiolaeth gan bobl benodol os gofynnir iddo wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty'r Cyffredin. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y swyddogaethau hyn i'w gweld yn yr atodiad.

## 5. Cadeirydd dros dro a dirprwyon

5.1 Efallai y byddai'n well ymdrin â'r darpariaethau cyffredinol ar gyfer cadeirio a dirprwyo mewn Rheol Sefydlog ar wahân sy'n ymwneud â gweithdrefnau mewn Pwyllgorau. Os felly, nid oes angen Rheolau Sefydlog 12.9 a 12.10 yn eu ffurf bresennol. Bydd angen cynnwys rhai darpariaethau penodol yn y Rheol Sefydlog hon i sicrhau nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn Aelod o grwp gwleidyddol sydd â rôl weithredol ac nad oes unrhyw Aelod nad yw'n gymwys o dan y Ddeddf i fod yn Aelod o'r Pwyllgor yn dirprwyo ar ran Aelod arall.

5.2 Cynigiwn fod y darpariaethau ar gyfer cadeirio a dirprwyo yn cael eu cynnwys mewn Rheol Sefydlog gyffredinol sy'n ymwneud â gweithdrefnau mewn Pwyllgorau, ac eithrio'r darpariaethau penodol yn y Mesur sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Archwilio.

C – A yw'r Aelodau yn fodlon â hyn?

## 6. Pwer i wysio tystion

6.1 Mae Rheol Sefydlog 12 hefyd yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer gwysio tystion a dangos dogfennau mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio. Mae Rheol Sefydlog 9, sy'n ymwneud â'r pwyllgorau pwnc, hefyd yn cynnwys darpariaethau o'r fath, felly mae'r gweithdrefnau'n cael eu dyblygu rywfaint. Mae cymal 37 y Mesur yn amlinellu'r pwerau a fydd gan y Cynulliad i wysio tystion ac mae'r pwerau hyn yn berthnasol i holl drafodion y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys pwyllgorau ac mae'n cyfeirio'n benodol at y Pwyllgor Archwilio, er nad oes gan y Pwyllgor Archwilio bwerau gwahanol i unrhyw Bwyllgor arall yn hyn o beth.

6.2 Cynigiwn fod Rheol Sefydlog ar wahân yn cael ei llunio i gwmpasu'r gweithdrefnau ar gyfer gwysio tystion a dangos dogfennau a bod darpariaethau 12.11- 12.15 yn y Rheol Sefydlog hon yn cael eu dileu. Byddai hyn yn symleiddio'r sefyllfa bresennol.

C – A yw'r Aelodau yn fodlon â hyn?

## 7. Cam i'w gymryd

7.1 Cytuno ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn Rheol Sefydlog hon, fel ag y'u hamlinellwyd yn y papur hwn a'r atodiad.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006